

Anifeiliaid anwes (ecsotig) gwyllt (1)

Beth yw anifail anwes (ecsotig) gwyllt?

Mae'n anodd diffinio'r term 'gwyllt' neu 'ecsotig'. A bod yn fanwl gywir, dylai gyfeirio at unrhyw anifail a gedwir y tu allan i wlad ei wreiddiau. Fodd bynnag, byddai hyn yn cynnwys cwningod, jebilod a bochdewion, er bod yr anifeiliaid hyn wedi cael eu bridio a'u cadw mewn caethiwed ers amser hir.

Gall anifeiliaid anwes gwyllt neu ecsotig fod yn unrhyw anifeiliaid:

- sydd heb gael eu sefydlu'n dda fel anifail anwes cartref cyffredin
- nad oes llawer o wybodaeth na gwybodaeth amrywiol ar gael i berchenogion anifeiliaid anwes am ofalu amdanynt
- nad oes gwybodaeth filfeddygol ar gael amdanynt gan fwyafrif y practisiau milfeddygol.

Pa fathau o anifeiliaid y gellir eu hystyried yn wyllt (ecsotig)?

- Corynnod, fel tarantwlaod
- Brogaod, llyffantod, salamandrau a madfallod y dŵr trofannol
- Igwanaod, gecoid a chameleonod
- Nadredd
- Crwbanod a therapiniaid
- Parotiaid, parotanod ac adar ecsotig eraill
- Mwncïod
- Tsintilaod a gwiwerod rhesog

O ble maen nhw'n dod?

Mae amrywiaeth eang o anifeiliaid yn cael eu bridio bellach mewn caethiwed yn y DU.

Fodd bynnag, bob blwyddyn, mae miliynau o anifeiliaid gwyllt yn parhau i gael eu maglu o wledydd fel De America ac Affrica i'w defnyddio yn y fasnach anifeiliaid anwes. Mae llawer yn marw pan gânt eu dal, pan gânt eu cludo a chyn cael eu gwerthu fel anifeiliaid anwes. Mae'r fasnach mewn 'anifeiliaid ecsotig' sy'n cael eu dal yn y gwyllt i'r fasnach anifeiliaid anwes, ynghyd â dinistrio cynefinoedd, yn golygu bod sawl rhywogaeth, gan gynnwys parotiaid a chrwbanod, bellach mewn perygl.



Anifeiliaid anwes (ecsotig) gwyllt (2)

Beth am y fasnach mewn rhywogaethau sydd mewn perygl?

Mae CITES (Y Confensiwn ar y Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau mewn Perygl) yn gytundeb rhyngwladol a gynlluniwyd i sicrhau nad yw masnach ryngwladol mewn anifeiliaid gwyllt yn bygwth eu goroesiad drwy atal neu gyfyngu masnach mewn rhai anifeiliaid sydd mewn perygl.

Beth y mae angen ichi ei ystyried wrth brynu anifail anwes (ecsotig) gwyllt?

Cyn ichi brynu anifail (ecsotig) gwyllt neu unrhyw fath arall o anifail anwes, dylech sicrhau bod gennych yr holl offer angenrheidiol a digon o amser, arian ac ymrwymiad i roi safon dda o ofal tymor hir i'r anifail.

Dylech hefyd gael gwybod cymaint ag y gallwch sut i ofalu am yr anifail hwnnw, yn enwedig os yw'n anifail gwyllt, o'ch ymchwil eich hun a chan werthwr yr anifail anwes. Bydd angen ichi ganfod pa ofal milfeddygol y gall fod ei angen ac a yw eich milfeddyg lleol yn gallu trin a rhoi cyngor ar anifeiliaid anwes gwyllt. Mae'n gallu bod yn ddrud trin anifeiliaid anwes gwyllt.

Mae llawer o anifeiliaid anwes gwyllt yn cael eu hachub gan sefydliadau fel yr RSPCA, felly ystyriwch ailgartrefu anifail anwes gwyllt yn hytrach na phrynu un. Er bod llawer o anifeiliaid anwes gwyllt yn cael eu bridio yn y DU erbyn hyn, mae rhai'n cael eu ffermio mewn caethiwed mewn gwledydd eraill ac wedyn eu mewnfario, sy'n rhoi llawer o straen ar yr anifail.

Dylech sicrhau hefyd nad ydych chi'n prynu anifeiliaid sy'n cael eu dal yn y gwyllt a'u mewnfario.

Mae gan wahanol anifeiliaid wahanol anghenion, ac mae rhai'n anoddach eu bodloni nag eraill. Mae'n bwysig bod perchenogion yn dewis yr anifail cywir iddynt hwy.